



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2013 Rhif 2127 (Cy. 208)**

**2013 No. 2127 (W. 208)**

**ADDYSG, CYMRU**

**EDUCATION, WALES**

**Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion  
a Gynhelir (Clerc i Gorff  
Llywodraethu) (Cymru) 2013**

**The Government of Maintained  
Schools (Clerk to a Governing  
Body) (Wales) Regulations 2013**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi cyn pen sawl wythnos y mae'n rhaid i awdurdod lleol ddarparu clerc addas i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir. Maent hefyd yn nodi'r anghenion hyfforddi ar gyfer clerc i gorff llywodraethu mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae cynnwys gofynnol yr hyfforddiant wedi ei nodi mewn dogfen a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

Mae rheoliad 1 yn darparu y bydd y Rheoliadau'n dod i rym ar 20 Medi 2013. Mae rheoliad 2 yn cynnwys y darpariaethau dehongli.

Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol bod yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol yn darparu i'r corff llywodraethu berson addas i'w benodi yn glerc. Mae person addas naill ai yn swyddog cymorth i lywodraethwyr neu yn berson sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant i glercod. Rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu clerc cyn pen 16 wythnos ar ôl iddo gael y cais i wneud hynny gan y corff llywodraethu a chaniateir i'r awdurdod lleol godi ffi i dalu am y gost o ddarparu'r clerc.

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch hyfforddiant clerc. Mae'n nodi bod yn rhaid i'r clerc gwblhau'r hyfforddiant yn foddhaol cyn pen blwyddyn ar ôl cael ei benodi'n glerc, neu cyn pen blwyddyn ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym.

Mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol, os nad yw'r clerc wedi cwblhau'r hyfforddiant yn unol â'r Rheoliadau, bod rhaid i'r corff llywodraethu symud y clerc o'i swydd. Dim ond ar ôl iddo gwblhau'r hyfforddiant y caniateir i glerc sydd wedi ei symud o'i swydd gael ei ailbenodi.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations set out within how many weeks a local authority must provide the governing body of a maintained school with a suitable clerk. They also set out the training requirements for the clerk to a governing body at maintained schools in Wales. The required content of the training is set out in a document published by the Welsh Ministers.

Regulation 1 provides that the Regulations will come into force on 20 September 2013. Regulation 2 contains the interpretation provisions.

Regulation 3 requires the local authority that maintains the school to provide the governing body with a suitable person to appoint as a clerk. A suitable person is either a governor support officer or someone who has completed the clerk training. The local authority must provide a clerk within 16 weeks of being requested by the governing body to do so and may charge a fee to cover the cost of providing the clerk.

Regulation 4 makes provision about the training of a clerk. It sets out that the training must be satisfactorily completed within 1 year of appointment as a clerk, or within 1 year of the coming into force of the Regulations.

Regulation 5 requires that if the clerk has not completed the training in accordance with the Regulations, the governing body must remove the clerk from office. A clerk removed from office may only be re-appointed when the training has been completed.

**2013 Rhif 2127 (Cy. 208)**

**2013 No. 2127 (W. 208)**

**ADDYSG, CYMRU**

**EDUCATION, WALES**

**Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion  
a Gynhelir (Clerc i Gorff  
Llywodraethu) (Cymru) 2013**

**The Government of Maintained  
Schools (Clerk to a Governing  
Body) (Wales) Regulations 2013**

*Gwnaed* 23 Awst 2013

*Made* 23 August 2013

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 28 Awst 2013

*Laid before the National Assembly for Wales*  
28 August 2013

*Yn dod i rym* 20 Medi 2013

*Coming into force* 20 September 2013

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau ym mharagraff 19(2) a (3) o Atodlen 1A i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(1), adrannau 19(2), 23 a 210 o Ddeddf Addysg 2002(3) ac adrannau 23, 24 a 32 o Fesur Addysg (Cymru) 2011(4), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The Welsh Ministers in exercise of the powers in paragraph 19(2) and (3) of Schedule 1A to the School Standards and Framework Act 1998(1), sections 19(2), 23 and 210 of the Education Act 2002(3) and sections 23, 24 and 32 of the Education (Wales) Measure 2011(4), make the following Regulations:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**Title, commencement and application**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Clerc i Gorff Llywodraethu) (Cymru) 2013 a deuant i rym ar 20 Medi 2013.

1.—(1) The title of these Regulations is the Government of Maintained Schools (Clerk to a Governing Body) (Wales) Regulations 2013 and they come into force on 20 September 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Dehongli**

**Interpretation**

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

2.—(1) In these Regulations—

- 
- (1) 1998 p.31. Mewnosododd adran 59(2) o Ddeddf 2002 Atodlen 6 i'r Ddeddf honno yn Neddf 1998 fel Atodlen 1A. Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Atodlen 1A i gael eu trin fel pe baent wedi eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 211 o Ddeddf 2002 ac yna i Weindogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
- (2) Fel y'i diwygiwyd gan adran 38 o Ddeddf Addysg 2011 (p.21).
- (3) 2002 p.32. Diwygiwyd adran 210(7) gan adran 21(1), (3)(c)(i) a (ii) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn i Weindogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
- (4) 2011 mccc 7.

- 
- (1) 1998 c.31. Section 59(2) of the 2002 Act inserted Schedule 6 of that Act into the 1998 Act as Schedule 1A. The functions of the Secretary of State under Schedule 1A are to be treated as having transferred to the National Assembly of Wales in accordance with section 211 of the 2002 Act and then to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).
- (2) As amended by section 38 of the Education Act 2011 (c.21).
- (3) 2002 c.32. Section 210(7) was amended by section 21(1), (3)(c)(i) and (ii) of the Learner Travel (Wales) Measure 2008 (nawm 2). The functions of the National Assembly for Wales under these sections were transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).
- (4) 2011 nawm 7.

ystyr “yr hyfforddiant” (“*the training*”) yw'r hyfforddiant a nodwyd yn y ddogfen a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ym mis Medi 2013 o'r enw “Cynnwys hyfforddiant ar gyfer clerod cyrff llywodraethu yng Nghymru”(1) sy'n nodi at ddiben adran 24 o Fesur Addysg (Cymru) 2011 yr hyfforddiant a'r safonau rhagnodedig;

ystyr “Rheoliadau 2005” (“*the 2005 Regulations*”) yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005(2);

ystyr “Rheoliadau 2010” (“*the 2010 Regulations*”) yw Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010(3);

ystyr “Rheoliadau 2012” (“*the 2012 Regulations*”) yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Trosi o fod yn Fwrdd Gweithredol Interim) (Cymru) 2012 (4); ac

ystyr “swyddog cymorth i lywodraethwyr” (“*governor support officer*”) yw person a gyflogir gan awdurdod lleol yn unswydd neu yn bennaf at y diben o ddarparu cymorth a chynghor i'r awdurdod lleol, i bennaethiaid ac i lywodraethwyr.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at gorff llywodraethu yn gyfeiriad at gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yn ardal yr awdurdod lleol.

(3) At ddiben y Rheoliadau hyn mae'r cwestiwn a yw clerc wedi cwblhau'r hyfforddiant yn foddhaol ai peidio i'w benderfynu gan y person a ddarparodd yr hyfforddiant i'r clerc hwnnw.

(4) At ddibenion Rheoliadau 2012, mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at “corff llywodraethu”, “llywodraethwr” a “llywodraethwyr” i'w darllen fel cyfeiriadau at “corff llywodraethu cysgodol”, “llywodraethwr cysgodol” a “llywodraethwyr cysgodol”.

### Darparu clerc i gorff llywodraethu

3.—(1) At ddiben y rheoliad hwn, mae clerc i gorff llywodraethu—

(a) yn berson a benodwyd yn rhinwedd rheoliad 42 i gyflawni'r swyddogaethau a nodwyd yn rheoliad 43 o Rheoliadau 2005; neu

“the 2005 Regulations” (“*Rheoliadau 2005*”) means the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005(1);

“the 2010 Regulations” (“*Rheoliadau 2010*”) means the Federation of Maintained Schools and Miscellaneous Amendments (Wales) Regulations 2010(2);

“the 2012 Regulations” (“*Rheoliadau 2012*”) means the School Governance (Transition from an Interim Executive Board) (Wales) Regulations 2012 (3)

“governor support officer” (“*swyddog cymorth i lywodraethwyr*”) means a person employed by a local authority for the sole or principal purpose of providing support and advice to the local authority, head teachers and governors; and

“the training” (“*yr hyfforddiant*”) means the training set out in the document published by the Welsh Ministers in September 2013 called “Content of training for clerks of governing bodies in Wales”(4) which sets out for the purpose of section 24 of the Education (Wales) Measure 2011 the prescribed training and standards.

(2) Any reference in these Regulations to a governing body is a reference to the governing body of a maintained school in the local authority's area.

(3) For the purpose of these Regulations the question of whether or not a clerk has satisfactorily completed the training is to be determined by the person who provided the training to that clerk.

(4) For the purposes of the 2012 Regulations, references in these Regulations to a “governing body”, “governor” and “governors” are to be read as references to “shadow governing body”, “shadow governor” and “shadow governors”.

### Provision of a clerk to a governing body

3.—(1) For the purpose of this regulation a clerk to a governing body is—

(a) a person appointed by virtue of regulation 42 to perform the functions set out in regulation 43 of the 2005 Regulations; or

(1) ISBN Rhif 978-0-7504-9645-2.

(2) O.S. 2005/2914 (Cy.211), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/3200 (Cy.236), O.S. 2006/873 (Cy.81), O.S. 2007/944 (Cy.80), O.S. 2009/2544 (Cy.206), O.S. 2010/638 (Cy.64), O.S. 2010/1142 (Cy.101), O.S. 2010/2582 (Cy.216) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2012/1643 (Cy.212).

(3) O.S. 2010/638 (Cy.64).

(4) O.S. 2012/1643 (Cy.212).

(1) S.I. 2005/2914 (W.211) as amended by S.I. 2005/3200 (W.236), S.I. 2006/873 (W.81), S.I. 2007/944 (W.80), S.I. 2009/2544 (W.206), S.I. 2010/638 (W.64), S.I. 2010/1142 (W.101), S.I. 2010/2582 (W.216) as modified by S.I. 2012/1643 (W.212)..

(2) S.I. 2010/638 (W.64).

(3) S.I. 2012/1643 (W.212).

(4) ISBN No 978-0-7504-9644-5.

- (b) yn berson a benodwyd yn rhinwedd rheoliad 50 i gyflawni'r swyddogaethau a nodwyd yn rheoliad 51 o Reoliadau 2010.

(2) Os yw corff llywodraethu yn gwneud cais i'r awdurdod lleol i ddarparu person i'w benodi yn glerc, rhaid i'r awdurdod lleol hwnnw ddarparu person addas i'w benodi cyn pen 16 wythnos ar ôl i'r awdurdod lleol gael y cais hwnnw.

(3) Mae person addas—

- (a) yn berson sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant yn foddhaol; neu
- (b) yn swyddog cymorth i lywodraethwyr.

(4) Caiff yr awdurdod lleol godi ffi am ddarparu person i weithredu fel clerc i'r corff llywodraethu.

(5) Pan fo awdurdod lleol yn arfer y pŵer i godi ffi o dan baragraff (4) ni chaniateir i'r ffi a godir fod yn uwch na'r gost o ddarparu'r clerc.

### **Hyfforddiant clerc i gorff llywodraethu**

4.—(1) At ddiben y rheoliad hwn, mae clerc i gorff llywodraethu—

- (a) yn berson a benodwyd yn rhinwedd rheoliad 42 i gyflawni'r swyddogaethau a nodwyd yn rheoliad 43 o Reoliadau 2005;
- (b) yn berson a benodwyd yn rhinwedd rheoliad 58(1) i gyflawni'r swyddogaethau a nodwyd yn rheoliad 58(5) mewn cysylltiad â phwyllgor a sefydlwyd yn unol â rheoliadau 55 i 57 o Reoliadau 2005;
- (c) yn berson a benodwyd yn rhinwedd rheoliad 50 i gyflawni'r swyddogaethau a nodwyd yn rheoliad 51 o Reoliadau 2010;
- (d) yn berson a benodwyd yn rhinwedd rheoliad 67(1) i gyflawni'r swyddogaethau a nodwyd yn rheoliad 67(5) mewn cysylltiad â phwyllgor a sefydlwyd yn unol â rheoliadau 64 i 66 o Reoliadau 2010; neu
- (e) yn berson a benodwyd yn rhinwedd rheoliad 10 o Reoliadau 2012.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i glerc gwblhau'r hyfforddiant yn foddhaol cyn pen pa un bynnag o'r canlynol yw'r diweddaraf—

- (a) blwyddyn o'i benodi yn glerc; neu
- (b) blwyddyn ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn gymwys i—

- (a) swyddog cymorth i lywodraethwyr;
- (b) person sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant yn foddhaol;

- (b) a person appointed by virtue of regulation 50 to perform the functions set out in regulation 51 of the 2010 Regulations.

(2) If a governing body makes a request to the local authority to provide a person for appointment as a clerk, that local authority must provide a suitable person for appointment within 16 weeks of the request being received by the local authority.

(3) A suitable person is—

- (a) a person who has satisfactorily completed the training; or
- (b) a governor support officer.

(4) The local authority may charge a fee for providing a person to act as a clerk to the governing body.

(5) Where a local authority exercise the power to charge a fee under paragraph (4) the fee charged must not exceed the cost of providing the clerk.

### **Training of clerk to a governing body**

4.—(1) For the purpose of this regulation a clerk to a governing body is—

- (a) a person appointed by virtue of regulation 42 to perform the functions set out in regulation 43 of the 2005 Regulations;
- (b) a person appointed by virtue of regulation 58(1) to perform the functions set out in regulation 58(5) in respect of a committee established in accordance with regulations 55 to 57 of the 2005 Regulations;
- (c) a person appointed by virtue of regulation 50 to perform the functions set out in regulation 51 of the 2010 Regulations;
- (d) a person appointed by virtue of regulation 67(1) to perform the functions set out in regulation 67(5) in respect of a committee established in accordance with regulations 64 to 66 of the 2010 Regulations; or
- (e) a person appointed by virtue of regulation 10 of the 2012 Regulations..

(2) Subject to paragraph (3) a clerk must satisfactorily complete the training within whichever is the later of—

- (a) 1 year of appointment as clerk; or
- (b) 1 year of the coming into force of these Regulations.

(3) Nothing in this regulation applies to—

- (a) a governor support officer;
- (b) a person who has satisfactorily completed the training;

- (c) llywodraethwr a benodwyd yn glerc yn unol â rheoliad 42 o Reoliadau 2005, rheoliad 50 o Reoliadau 2010 neu reoliad 10(3) o Reoliadau 2012.

- (c) a governor appointed as a clerk in accordance with regulation 42 of the 2005 Regulations, regulation 50 of the 2010 Regulations or regulation 10(3) of the 2012 Regulations.

#### **Symud clerc i gorff llywodraethu o'i swydd**

5.—(1) Os nad yw clerc i gorff llywodraethu yn cwblhau'r hyfforddiant yn foddhaol yn unol â'r Rheoliadau hyn, yna rhaid i'r corff llywodraethu symud y clerc o'i swydd.

(2) Ni chaiff person sydd wedi ei symud o'i swydd yn unol â pharagraff (1) gael ei benodi yn glerc i gorff llywodraethu hyd nes y bydd y person hwnnw wedi cwblhau'r hyfforddiant yn foddhaol.

#### **Removal of clerk to a governing body from office**

5.—(1) If the clerk to a governing body does not satisfactorily complete the training in accordance with these Regulations then, the governing body must remove the clerk from office.

(2) A person removed from office in accordance with paragraph (1) may not be appointed as a clerk to a governing body until that person has satisfactorily completed the training.

*Huw Lewis*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

23 Awst 2013

---

©<sup>©</sup> Hawlfraint y Goron 2013

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers

23 August 2013

---

© Crown copyright 2013

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.





---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2013 Rhif 2127 (Cy. 208)**

**2013 No. 2127 (W. 208)**

**ADDYSG, CYMRU**

**EDUCATION, WALES**

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion  
a Gynhelir (Clerc i Gorff  
Llywodraethu) (Cymru) 2013

The Government of Maintained  
Schools (Clerk to a Governing  
Body) (Wales) Regulations 2013

£5.75

W1702/09/13

ON

ISBN 978-0-348-10802-6



9 780348 108026